## PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 23 Hydref 2002 |
| **Amser:** | 9.00 am hyd 12.00 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## RHAGLEN WAITH – TYMOR YR HYDREF 2002

### Pwrpas

1. Gwahodd y Pwyllgor i gytuno ar raglen waith fanwl ar gyfer tymor yr hydref.

### Cefndir

2. Mae RhS 9.9 yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pwnc gynnal rhaglenni gwaith treigl dros gyfnodau o 12 mis o leiaf. Cytunodd y Pwyllgor ar raglen waith strategol ar gyfer 2002-03 ym mis Ebrill ac yn nawr mae angen cytuno ar raglen fanwl ar gyfer tymor yr hydref.

### Rhaglen Waith

3. Mae'r **rhaglen waith fanwl** a gynigir i'w gweld yn **Atodiad A**. Fel trefniant cyfamserol, mae'r Pwyllgor yn neilltuo amser i drafod yr adolygiad o weithredu bioamrywiaeth lleol, i ystyried prif ddatblygiadau polisi a deddfwriaeth y Gweinidog y gofynnodd y Pwyllgor am gael ymgynghori arnynt, ac i ystyried y gyllideb ddrafft.

### Argymhelliad

4. Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno ar y rhaglen waith fanwl a amgaeir.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

Mis Hydref 2002

**ATODIAD A**

## PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

## BLAENRAGLEN WAITH FANWL – TYMOR YR HYDREF 2002

| Cyfarfod | Eitem rhif | Eitemau ar yr Agenda |
|---|---|---|
| Dydd Mercher 23 Hydref<br><br>9.00 am – 12.00 pm | 1<br><br>2<br><br>3<br><br>4<br><br>5 | Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd<br><br>Cyllideb ddrafft<br><br>Adolygiad bioamrywiaeth: ymgynghoriad a chamau nesaf<br><br>Rhaglen Waith<br><br>Deddfwriaeth: rhagolwg |
| | | |
| Dydd Mercher 6 Tachwedd<br><br>9.00 am – 12.00 pm | 1 | Adolygiad bioamrywiaeth: sesiwn tystiolaeth (DS. Cyfarfod cyfan) |
| | | |
| Dydd Mercher 20 Tachwedd<br><br>9.00 am – 12.00 pm | 1<br><br>2<br><br>3<br><br>4 | Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd<br><br>Adolygiad arfaethedig o Barciau Cenedlaethol Cymru<br><br>Diwygio trefniadau’r Pwyllgoru Penderfyniadau Cynllunio<br><br>Adroddiad Gwasanaethau Awyr |
| | | |
| Dydd Iau 28 Tachwedd<br><br>2.00 – 4.00 pm<br><br>Slot ychwanegol | | Seminar anffurfiol ar opsiynau trin gwastraff |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Mercher 4 Rhagfyr<br><br>9.00 am – 12.00 pm | 1<br><br>2<br><br>3<br><br>4 | Adolygiad bioamrywiaeth: dadansoddi’r materion allweddol a datganiad polisi gan y Gweinidog<br><br>Y diweddaraf ar baratoi Cynllun Gofodol Cymru<br><br>'Gwerthfawrogi ein Hetifeddiaeth' ac adolygiad pum mlynedd Cadw<br><br>Diweddariad gan yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol ar reilffyrdd yng Nghymru |
| | | |
| Dydd Mercher 18 Rhagfyr<br><br>9.00 am – 12.00 pm | 1<br><br>2<br><br>3 | Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd<br><br>Adolygiad bioamrywiaeth: argymhellion drafft<br><br>Cynllun Gweithredu Strategaeth Wastraff Cymru |
| | | |
| Toriad y Nadolig: 23 Rhagfyr 2002 – 10 Ionawr 2003 | | |

**EITEMAU I’W CYNNWYS:**

<u>Deddfwriaeth</u>

- Mesur Cynllunio

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

Hydref 2002